

# ARHOSWCH! PEIDIWCH

## Â GWNEUD Y TALIAD YNA



### TWYLL DARGYFEIRIO TALIAD

Twyll Dargyfeirio Taliad (PDF) yw lle mae troseddwr yn targedu unigolyn penodol, yn dynwared eraill, yn creu neu'n diwygio anfonebau ac yn dargyfeirio taliadau i gyfrifon banc wedi'u rheoli gan droseddwr.

Mae'n effeithio ar bawb, er bod busnesau bach a chanolig yn arbennig o fregus.

Sicrhewch fod aelodau tîm mewn adrannau cyllid, cyflogres ac adrannau eraill sy'n gwneud taliadau yn ymwybodol o'r risg. Wrth i ddiwedd blwyddyn agosáu, mae taliadau a baich gwaith uwch yn gwneud busnesau'n fwy bregus.

### ADNABYDDWCH Y PERYGLON.

#### Astudiaeth achos: Cwmni yn y ddinas yn colli £340,000 ar ôl i e-bost prif PA gael ei ffugio.

Canfu'r cwmni 30 o anfonebau ffug, a gymeradwywyd yn ôl pob sôn i'w talu i 21 cyfrif banc gwahanol. Roedd yn ymddangos bod pob anfoneb gan gynorthwy-ydd personol y Prif Swyddog Gweithredol ac roeddent wedi cael eu hanfon i flwch e-bost grŵp Cyfrifon Taladwy gydag awdurdodiad i'w talu ar frys.

Ar ôl i'r cwmni ddod yn ymwybodol o'r twyll, sefydlodd ymholiadau mewnol fod negeseuon e-bost y Cynorthwy-ydd Personol, mewn gwirionedd, yn 'ffugiadau', wedi'u hanfon trwy wefan dramor sy'n helpu troseddwr i ffugio cyfeiriadau e-bost.

Arweiniodd y twyll llwyddiannus hwn at golled o tua **£340,000**.

### Adnabyddwch yr arwyddion

- A ofynnwyd i chi brosesu taliad ar frys sy'n fawr neu'n anarferol?
- Neu i newid manylion banc cyflenwr presennol, neu i sefydlu cyflenwr newydd?
- A yw'r cais yn cynnwys camgymeriadau, gwallau sillafu neu rywbeth rhyfedd arall?

### Diogelwch eich busnes

- Meddylwch: a yw'r cais hwn yn ddilys?
- Dilyswch negeseuon e-bost neu alwadau sy'n datgan newid mewn manylion banc trwy ffynhonnell annibynnol - megis galwad ffôn neu yn y cnawd.
- Os ydych chi'n amau eich bod wedi bod yn ddioddefwr twyll dargyfeirio taliad;
  - Cysylltwch â'ch banc ar unwaith.
  - Adroddwch i Action Fraud, ewch i [actionfraud.police.uk](https://www.actionfraud.police.uk) neu galwch 0300 123 2040. Os yn yr Alban galwch 101 i adrodd i Police Scotland.

Prif gydran o Dwyll Dargyfeirio Taliad yw cyfaddawdu E-bost Busnes (BEC). Dysgwch sut i ddiogelu'ch busnes yn erbyn BEC trwy ddilyn cyfarwyddyd oddi wrth ein partneriaid yn y Ganolfan Diogelwch Seibr Cenedlaethol:

## Beth yw cyfaddawdu e-bost busnes?

Mae cyfaddawdu e-bost busnes (neu BEC) yn ffurf o ymosodiad gwe-rwydo lle mae troseddwr yn ceisio twyllo uwch swyddog (neu ddeiliad cyllideb) i drosglwyddo arian, neu ddatgelu gwybodaeth sensitif.

Mae'r troseddwr y tu ôl i BEC yn anfon negeseuon e-bost sy'n edrych yn argyhoeddiadol a allai ofyn am daliadau anarferol, neu gynnwys dolenni i wefannau 'amheus'. Mae rhai negeseuon e-bost yn gallu cynnwys feirysau ar ffurf atodiadau diniwed, sy'n cael eu hysgogi pan fyddant yn cael eu hagar.

Yn wahanol i negeseuon e-bost gwe-rwydo safonol sy'n eu cael hanfon allan heb wahaniaethu at filiynau o bobl, mae ymosodiadau BEC wedi cael eu creu i apelio at unigolion penodol, a gallant fod yn anoddach byth i'w darganfod. MAE BEC yn fygythiad i bob sefydliad o bob maint ac ar draws bob sector, gan gynnwys sefydliadau nid er elw a llywodraeth.

## Gwnewch eich hun yn darged anoddach

Mae gwybodaeth amdanoch chi sy'n gallu cael ei gweld yn hawdd ar eich gwefannau gwaith a phreifat (gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol) yn gallu cael ei defnyddio gan droseddwr i wneud i'w negeseuon e-bost gwe-rwydo ymddangos yn fwy argyhoeddiadol.

**Adolygwch eich gosodiadau preifatrwydd**, a meddylwch am yr hyn rydych yn ei bostio ar draws eich cyfrifon cymdeithasol a phroffesiynol.

Byddwch yn ymwybodol o'r hyn mae eich ffrindiau, teulu a chydweithwyr yn ei ddweud amdanoch ar-lein, gan y gall hyn hefyd ddatgelu gwybodaeth sy'n gallu cael ei defnyddio i'ch targedu chi.

Os ydych chi'n sylwi ar e-bost amheus, **anfonwch ef ymlaen at [report@phishing.gov.uk](mailto:report@phishing.gov.uk)**, neu defnyddiwch y botwm Phishing yn Outlook os yw wedi'i osod gennych, ac **yna dangoswch ef fel spam/junk ym mewnflwch eich e-bost**. Dywedwch wrth eich adran TG eich bod wedi ei adnabod fel rhywbeth a allai fod yn anniogel

Fydd y negeseuon e-bost rydych yn eu hanfon yn cael eu camgymryd am negeseuon e-bost gwe-rwydo? Ystyriwch ddweud wrth gwsmeriaid beth y dylent gadw llygad arno (megis *'ni fyddwn byth yn gofyn am eich cyfrinair'*)

## Beth i'w wneud os ydych wedi clicio'n barod?

Y peth pwysicaf yw peidio â chynhyrfu. Bydd gan eich adran TG gamau yn eu lle i helpu staff sy'n meddwl eu bod wedi cael eu gwe-rwydo.

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi bod yn ddiodefwr ymosodiad gwe-rwydo, dywedwch wrth eich adran TG cyn gynted ag y gallwch. Po gynharaf y dywedwch wrthynt, y mwyaf tebygol y byddant o allu helpu.

## Arwyddion sicr o we-rwydo

Mae sylwi ar e-bost gwe-rwydo yn dod yn gynyddol anodd a bydd yn twyllo'r defnyddiwr mwyaf gofalus hyd yn oed. Mae cael yr hyder i ofyn 'a yw hyn yn ddilys?' yn gallu bod y gwahaniaeth rhwng aros yn ddiogel, neu anffawd costus.

Meddylwch am eich ymarferion gwaith arferol o gwmpas trafodion ariannol. Os byddwch chi'n cael e-bost oddi wrth sefydliad nad ydych yn masnachu â hwy, triniwch ef ag amheuaeth

Cadwch olwg am negeseuon e-bost sy'n ymddangos fel eu bod yn dod oddi wrth unigolyn mewn swydd uchel o fewn eich sefydliad, sy'n gofyn am daliad i gyfrif penodol. Edrychwch ar enw a chyfeiriad e-bost yr anfonwr. A yw'n swnio'n gyfreithlon, neu a yw'n ceisio dynwared rhywun rydych yn ei adnabod?

Sicrhewch fod pob cais e-bost pwysig yn cael eu dilysu gan ddefnyddio dull arall (megis neges SMS, galwad ffôn, mewngofnodi i gyfrif, neu gadarnhad trwy bost neu yn y cnawd).

A yw'r e-bost yn cynnwys awgrym o fygythiad sy'n gofyn i chi weithredu ar frys? Byddwch yn amheus o eiriau fel 'anfonwch y manylion hyn o fewn 24 awr' neu 'rydych wedi bod yn ddiodefwr trosedd, cliciwch yma ar unwaith'.

Bydd rhai negeseuon e-bost yn ceisio creu negeseuon e-bost sy'n edrych yn swyddogol trwy gynnwys logos a graffeg. A yw'r cynllun (ac ansawdd) yr hyn y byddech yn ei ddisgwyl?

**BYDDWCH YN WYLIADWRUS,  
BYDDWCH YN DDIOGEL**

I ddysgu mwy am sut i sylwi ar arwyddion o dwyll dargyfeirio taliad, ewch i [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk) yn awr.